

# Papur briffio ar Ffiniau Gofal

by Amy Bainton
July 2022

Believe in children
Barnardo's Cymru

# Beth yw'r broblem?

Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 34%, a Chymru sydd â'r gyfradd uchaf o blant sy'n derbyn gofal yng ngwledydd y Deyrnas Unedig.

Mae'r ystadegau diweddaraf ar gyfer Cymru yn dangos bod:

**7,270**
o blant mewn gofal awdurdod lleol ym mis Mawrth 2022[1]

**3,868**
o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn 2020/21[2]

**16,580**
o blant yn cael gofal a chymorth gan awdurdodau lleol yn 2020[3]

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn tynnu sylw at y ffaith bod angen cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd, lle mae hyn yn ddiogel ac er lles gorau'r plentyn.

Mae'r data hwn yn dangos bod yr angen am gymorth ar ffiniau gofal – i'r teuluoedd hynny lle mae risg y gallai plentyn gael ei roi mewn gofal – yn tyfu ac yn gymhleth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn y Rhaglen Lywodraethu[4] i fuddsoddi mewn cymorth arbenigol i blant sydd ar ffiniau gofal sydd ag anghenion cymhleth, ac mae ganddi uchelgais i weithio i gadw mwy o blant yn ddiogel o fewn teuluoedd ac osgoi cael eu derbyn i ofal awdurdod lleol.

Mae'n bwysig cydnabod ei bod yn iawn i rai plant ddod i ofal. Fodd bynnag, credwn fod mwy y gallwn ei wneud i ganfod a chefnogi teuluoedd i gefnogi plant yn ddiogel heb yr angen am achosion gofal. Dylid canolbwyntio hefyd ar ddarparu cefnogaeth i rai teuluoedd y mae eu plant wedi cael eu rhoi mewn gofal er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol fel y gellir eu hailuno'n ddiogel gyda'u plant.

1 https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-gender-age

2 https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Service-Provision/childrenonchildprotectionregister-by-localauthority-categoryofabuse-agegroup

3 https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-localauthority-agegroup

4 https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-diweddariad



# Sut dylai cymorth ar ffiniau gofal edrych?

***Sylw ar y gwasanaeth: Babi a Fi, Casnewydd***

Mae Babi a Fi yn brosiect arloesol sy'n deillio o Bartneriaeth Cyngor Dinas Casnewydd a Barnardo's Cymru, sy'n darparu cymorth dwys cyn ac ar ôl geni i deuluoedd lle mae risg y byddai babi'n cael ei roi mewn gofal ar enedigaeth. Mae'r gwasanaeth yn dod ag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a chymorth magu plant at ei gilydd mewn un model cyfannol sydd wedi sicrhau canlyniadau rhagorol.

Datblygwyd Babi a Fi yn 2019 ac mae'n darparu pecyn cymorth sy'n cynnwys; cymorth un i un pwrpasol, rhaglen magu plant chwe wythnos o hyd o'r enw "Baby Steps" a Chynhadledd Grŵp Teulu[5] lle bo'n briodol. Mae Babi a Fi yn gweithio gyda rhieni i greu man diogel lle gall teuluoedd archwilio'r materion maen nhw wedi'u nodi. Mae'r tîm hefyd yn defnyddio amryw o strategaethau a dulliau therapiwtig i weithio mewn modd empathig gyda rhieni a'u grymuso i gyflawni eu nod o gadw eu teulu gyda'i gilydd.

Mae Babi a Fi yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar berthynas, i weithio gyda theuluoedd mewn ffordd hyblyg sy'n deall trawma. Mae'r gwasanaeth yn gydweithrediad rhwng iechyd (bydwragedd, gwasanaethau iechyd meddwl a thimau ymwelwyr iechyd) a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn hyrwyddo negeseuon iechyd gyda'r bwriad o wella canlyniadau iechyd i rieni a babanod. Mae ymarferwyr yn cydnabod pwysau magu plant ochr yn ochr â phrosesau amddiffyn plant ac yn hwyluso ymgysylltu â gwasanaethau ehangach fel camddefnyddio sylweddau, tai, iechyd meddwl ac ati, i gefnogi rhieni i oresgyn rhwystrau i fagu plant yn llwyddiannus.

- Ers ei sefydlu yn 2019, bu gostyngiad o 48% yn nifer y camau gofal a gymerwyd ar enedigaeth, sy'n cyfateb i 20 yn llai o fabanod yn dod i ofal yng Nghasnewydd o'i gymharu â'r ddwy flynedd cyn dechrau'r gwasanaeth.
- O'r babanod sydd wedi mynd adref, roedd 100% wedi cael eu dadgofrestru o'r Gofrestr Amddiffyn Plant erbyn eu pen-blwydd cyntaf.
- Mae teuluoedd Babi a Fi yn treulio llai o amser ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn eu blwyddyn gyntaf o fywyd na babanod cymharol.
- ***"Rydw i'n teimlo fy mod i wedi cael fy ngweld i fel unigolyn, a'r unigolyn ydw i yn awr, nid fel popeth a ddigwyddodd yn y gorffennol. Dydw i ddim yn teimlo fy mod i wedi cael fy marnu ar sail yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol"*** – Adborth gan riant

**Argymhelliad:** Mae Barnardo's Cymru o'r farn y dylai'r lefel hon o gymorth fod ar gael i deuluoedd ledled Cymru a byddai'n annog Llywodraeth Cymru i gefnogi ehangu Babi a Fi a modelau eraill sy'n helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel.

5 Mae Cynadleddau Grŵp Teulu yn gyfarfodydd gwirfoddol ar gyfer gwneud penderfyniadau i helpu teuluoedd i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i broblemau. Gall Cynhadledd Grŵp Teulu helpu unrhyw deulu i ddelio â'r problemau maen nhw'n eu hwynebu a chreu atebion gyda'i gilydd. Yn y broses cynadleddau grŵp teulu, y teulu sy'n arwain y drafodaeth ac yn dewis atebion sy'n gweithio iddyn nhw.

# Buddsoddi mewn ymyriadau cynnar ac atal

I deuluoedd di-rif, mae ymyriadau cynnar yn allweddol. Pan ellir cymryd camau'n ddigon buan, gellir ymdrin â llawer o faterion yn gynharach a chyn iddynt ddod i'r amlwg. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn dweud bod ***"mynd i'r afael â thlodi a meithrin gwytnwch cymunedol gyda gwasanaethau sydd â'r nod o gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn helpu i leihau nifer y plant sy'n mynd i ofal."***[6]

Mae manteision ymyriadau cynnar wedi hen ennill eu plwyf ac mae llawer o raglenni a gwasanaethau'n ymgorffori hyn ledled Cymru. Fodd bynnag, er mwyn i ymyriadau cynnar fod yn effeithiol, rhaid buddsoddi ynddi.

***Sylw ar y gwasanaeth: Comisiynir Teuluoedd Cydnerth Rhondda Cynon Taf yn y Rhondda***[7] idrwy Teuluoedd yn Gyntaf i ddarparu cymorth i deuluoedd ar draws Rhondda Cynon Taf fel rhan o wasanaeth cymorth yr awdurdod i deuluoedd. Mae'n cydlynu'r broses o gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd angen cymorth i rwystro'r anghenion a'r risg rhag cynyddu. Gan ddefnyddio model gweithiwr allweddol, mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth i deuluoedd, cymorth magu plant a chymorth i bobl ifanc mewn teuluoedd sy'n agored i niwed er mwyngwella canlyniadau llesiant. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwasanaeth hwn wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw o ran niferoedd[8] a hefyd o ran lefelau uwch o angen a risg i blant a phobl ifanc[9]. Y gwir amdani yw bod gwasanaethau ymyriadau cynnar ac atal yn llithro tuag at ddarparu gwaith ar ffiniau gofal, sy'n creu'r angen i Lywodraeth Cymru ystyried sut i gyllido cymorth ar draws y continwwm anghenion.

***Sylw ar y gwasanaeth: Mae Tai â Chymorth i Deuluoedd Ifanc Caerdydd***[10] yn darparu tai a chefnogaeth i deuluoedd ifanc agored i niwed, lle mae'r prif ofalwr rhwng 16 a 21 mlwydd oed wrth iddynt symud i mewn) a naill ai'n feichiog neu'n rhiant. Mae'r gwasanaeth yn helpu rhieni ifanc i fagu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth angenrheidiol i fyw'n fwy annibynnol yn eu cymunedau, i reoli tenantiaeth ac i werthfawrogi'r holl bethau hyfryd am fod yn rhiant.

***Sylw ar y gwasanaeth: Cyfle: Mae Gwasanaeth Sgiliau Bywyd Teuluol, Sir Ddinbych*** yn darparu cymorth cynnar i deuluoedd a gweithio i sicrhau eu bod yn cael cymorth i fynd i'r afael ag amrywiol anghenion. Mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu ac yn gweithio gyda theuluoedd sydd â phlant rhwng 0 ac 18 oed, gan gynnig cymorth pwrpasol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys gwaith uniongyrchol gyda rhieni/gofalwyr a phlant, gwaith grŵp, a chyfeirio at asiantaethau eraill.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer ymgynghori gyda'r sector gofal cymdeithasol i blant (gan gynnwys darparwyr gwirfoddol/trydydd sector) ar sut dylai gwasanaethau ymyriadau cynnar edrych, heriau sy'n wynebu'r sector a pha flaenoriaethau ddylai fod ar gyfer y dyfodol. Mae gwasanaethau ymyriadau cynnar dan gryn straen, a rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau ar sail gwybodaeth i fynd i'r afael â hyn.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried Strategaeth Atal ac Ymyrryd yn Gynnar a fyddai'n defnyddio dealltwriaeth a ddatblygwyd o'r pwysau a'r anawsterau sy'n wynebu gwasanaethau ymyriadau cynnar, a chynllunio ar gyfer dyfodol cynaliadwy i'r gwasanaethau hyn.

6 https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/lleihaur-angen-i-blant-fynd-i-ofal-mewn-modd-diogel#section-34029-anchor

7 https://www.barnardos.org.uk/what-we-do/services/rct-resilient-families#:~:text=About%20this%20service,e.g.%20schools%20and%20health%20care

8 Yn ystod 2021-2022 cafodd y Gwasanaeth gyfanswm o 213 atgyfeiriad newydd – 64% o gynnydd, ac ymgysylltu â 330 o deuluoedd, sy'n 42% o gynnydd ers y flwyddyn flaenorol

9 Mae nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio sydd ag anghenion iechyd meddwl wedi codi 40% ers y flwyddyn flaenorol

10 https://www.barnardos.org.uk/what-we-do/services/cardiff-supported-housing-young-families



# Sicrhau newid cynaliadwy a gweithio gyda theuluoedd am 'cyn belled ag y bo angen'

Am lawer o resymau, mae cynaliadwyedd yn fater allweddol mewn gwasanaethau ar ffiniau gofal.

Mae cynaliadwyedd cyllid yn elfen allweddol wrth ddarparu gwasanaethau arloesol ar ffiniau gofal. Yn gyntaf, ceir llawer o fudd drwy fuddsoddi yn yr amser i feithrin perthynas llawn ymddiriedaeth gyda theuluoedd. Mae rhywfaint o waith mwyaf llwyddiannus Barnardo's Cymru yn seiliedig ar ymrwymiad i feithrin ymddiriedaeth. Mae colli gwasanaethau – a thrwy hynny golli gweithwyr medrus y mae pobl yn ymddiried ynddynt – yn creu ansefydlogrwydd i deuluoedd ac i wasanaethau eu hunain.

Mae gwasanaethau'n wynebu problemau sy'n ymwneud â chontractau byr o 12 neu 24 mis, nad ydynt yn rhoi llawer o amser i wreiddio gwasanaeth mewn cymuned nac i staff feithrin perthynas â theuluoedd. Gall hyn greu amgylchedd gwaith ansefydlog i staff a allai deimlo eu bod yn gorfod gadael am swydd fwy diogel.

Mae angen i wasanaethau hefyd allu sefydlu modelau gweithio effeithiol a dangos llwyddiant.

***Sylw ar y gwasanaeth: Gwasanaeth Torri'r Cylch, Abertawe:*** Cafodd Gwasanaeth Mae Plant yn Bwysig Abertawe Barnardo's Cymru gymorth y Gronfa Loteri Fawr i ddarparu gwasanaeth cymorth dwys i deuluoedd rhwng 2016 a 2019. Cafodd y gwasanaeth ei ddylunio, ac mae'n derbyn cymorth, gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd Dinas a Sir Abertawe. Nod y prosiect oedd darparu cymorth dwys i deuluoedd i dorri'r cylch o faterion sy'n pontio'r cenedlaethau drwy wella gweithrediad teuluoedd, dewisiadau ffordd o fyw, ymgysylltu a dyheadau.

Un o nodweddion sylfaenol y gwasanaeth hwn oedd ei fod wedi ei gynllunio i weithio gyda theuluoedd 'cyhyd ag y bo angen', a oedd yn cael ei gydnabod gan deuluoedd fel rhan bwysig o'r ymyriad. Mae mwy a mwy o ymyriadau'n gyfyngedig o ran amser, sy'n creu heriau ychwanegol o ran datblygu perthynas â theuluoedd a helpu i ddatblygu newid hirdymor o fewn y teulu.



***Mae Torri'r Cylch*** hefyd yn enghraifft o'r angen i weithio gyda'r teulu cyfan, yn hytrach na gweithio gydag un aelod o'r teulu yn unig. Mae hyn yn chwalu seilos ac yn helpu i lywio deinameg y teulu cyfan, fel rhan o gymorth â newidiadau tymor hir.

*Cyflawnodd Torri'r Cylch* lwyddiannau mawr gyda theuluoedd:

- Dim ond 2 deulu o Abertawe allan o 44 a gafodd eu cyfeirio'n ôl at y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd am ymyriad statudol ar ôl cael cymorth.[11]
- Adborth gan rieni: ***"Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn amddiffyn plant ac felly maent yn gyfyngedig o ran yr hyn y gallant ei wneud. Rydych yn cyrraedd eu disgwyliadau, ac maen nhw'n ymadael, ond nid yw hynny'n mynd at wraidd y problemau. Maen nhw yno i amddiffyn plant. Edrychodd Barnardo's ar hyn gyda mi, y rhesymau pam mae pethau'n digwydd a sut i ddod allan o'r sefyllfa. Maent yno am y tymor hir."***
- Dywedodd 79% o deuluoedd fod y cymorth gan Torri'r Cylch wedi gwella eu bywydau.[12]

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector gofal cymdeithasol i blant i ddatblygu llwyfan cyllido cynaliadwy a fydd yn sicrhau arloesi a rhagoriaeth i blant yng Nghymru, gan gynnal yr hyn sy'n gweithio ar yr un pryd. Dylid cyd-gynhyrchu hyn gyda phlant a phobl ifanc, teuluoedd ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod lleisiau defnyddwyr gwasanaethau yn ganolog i ddyfodol ein gwasanaethau. Dylai gwasanaethau hefyd gael codiad mewnol drwy gydol y contract, yn ogystal â chaniatáu digon o gwmpas ariannol sy'n ofynnol i arloesi, dim ond i gadw i fyny â chwyddiant.

Ar ben hynny, dylid cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol i ddarparu'r gefnogaeth a'r effaith orau bosibl i deuluoedd. Dylid cael hyblygrwydd hefyd i sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael eu cyfeirio'n ôl yn rhwydd ac yn gyflym at wasanaethau lle bo angen.

Dylid grymuso gwasanaethau hefyd i weithio gyda'r teulu cyfan. Nid yw gweithio gydag un aelod o'r teulu ar ei ben ei hun yn mynd i'r afael â deinameg cymhleth mewn teulu yn yr un ffordd. Mae gwaith aml-asiantaeth hefyd yn allweddol – yn aml mae'r problemau mae teulu'n eu hwynebu'n gofyn am gydlynu nifer o wasanaethau, ac mae cynnig gwasanaeth cyfannol yn allweddol.

11 Torri'r Cylch – ymyriad dwys i gefnogi teuluoedd er mwyn lleihau'r angen i Wasanaethau Cymdeithasol gymryd rhan yn y dyfodol

12 Torri'r Cylch – ymyriad dwys i gefnogi teuluoedd er mwyn lleihau'r angen i Wasanaethau Cymdeithasol gymryd rhan yn y dyfodol




# Newid systemau a gweithio mewn partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a darparwyr trydydd sector yn elwa ar arbenigedd yn y ddau sefydliad, ac mae'n creu lle i arloesi a darparu ar gyfer teuluoedd ar sail eu hanghenion.

Mae hyn yn ein galluogi i ddatblygu modelau o gefnogaeth arbenigol ac i deilwra ein hymatebion i anghenion teuluoedd a'u plant.

Sut mae'n gweithio:




***Sylw ar y gwasanaeth: Sefydlwyd Partneriaeth Cyngor Dinas Casnewydd a Barnardo's Cymru*** yn 2011 ac mae'n darparu ymatebion arloesol i'r heriau sy'n wynebu teuluoedd yng Nghasnewydd, yn enwedig y rhai sydd ar ffiniau gofal. Dan adain y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd, mae'r ymyriadau'n cynnwys Babi a Fi, y tîm Ymateb Brys sy'n gweithio gyda phlant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau ar ffiniau gofal, Cyswllt Gydol Oes[13], a Chynadleddau Grŵp Teulu. Mae'r bartneriaeth strategol hon yn datblygu'n barhaus drwy nodi meysydd datblygu presennol neu bosibl drwy amrywiaeth eang o brosesau dysgu gan gynnwys cydgynhyrchu gyda phobl ifanc a theuluoedd, archwiliadau achos thematig, ymchwil mewnol, adrodd tryloyw, a dyhead ar y cyd i ddarparu atebion arloesol i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd.

- Dywedodd 100% o deuluoedd y byddent yn argymell y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd i deuluoedd eraill
- Mae'r gwasanaeth Ymateb Brys wedi cynorthwyo 91% (65) o blant a phobl ifanc i aros gartref.

Ceir gwahaniaeth diwylliannol allweddol a welir mewn partneriaeth strategol sy'n seiliedig ar gyfrifoldeb ar y cyd rhwng yr awdurdod lleol a phartner y trydydd sector, lle mae'r ddau bartner yn cydnabod manteision buddsoddi i arbed a gweithio ar y cyd tuag at nod cyffredin.
.

**Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cymru annog mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a darparwyr trydydd sector yng Nghymru, er mwyn cyflawni'r uchelgais i fod yn gartref i'r ymyriadau mwyaf arloesol ac effeithiol ym maes gwasanaethau plant.

13 Mae Cysylltiadau Gydol Oes yn fodel a ddatblygwyd gan y grŵp Hawliau'r Teulu i sicrhau bod gan blentyn mewn gofal rwydwaith cymorth cadarnhaol o'i gwmpas i'w helpu yn ystod ei gyfnod mewn gofal ac wrth iddo ef/hi dyfu'n oedolyn. Yng Nghasnewydd, mae ein defnydd o'r Cyswllt Gydol Oes wedi golygu bod gan unigolyn ifanc 4 cysylltiad ar gyfartaledd ar ddechrau'r broses, a 12 cysylltiad ar gyfartaledd ar y diwedd.

# Beth all ymyriadau ar ffiniau gofal ei gyflawni – stori Abbie[14]

Roedd Abbie wedi profi cam-drin domestig rhwng ei rhieni ers yr oedd hi'n chwe blwydd oed; gwelodd ei mam yn cael ei hanafu gan ei thad ac ar adegau roedd hi'n cael ei dal yn y canol wrth iddi geisio ymyrryd. Wrth i Abbie fynd yn hŷn, dechreuodd golli'r ysgol a mynd ar goll o'i chartref. Yn aml, roedd Abbie yn teithio o Gymru i Loegr gyda dynion sydd â hanes o droseddau ac a fyddai'n ei hecsbloetio'n rhywiol yn gyfnewid am gyffuriau ac alcohol.

Pan oedd hi'n 15 oed, dechreuodd Abbie ymwneud â gweithiwr Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Barnardo's, Katie, a luniodd berthynas gref a chadarnhaol ag Abbie. Roedd Abbie yn ymddiried digon yn Katie i ddatgelu bod ei thad yn bygwth ei hanfon dramor i briodi aelod o'r teulu oherwydd ei hymddygiad gartref.

Rhoddwyd Gorchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfod a Gorchymyn Amddiffyn Brys gan y llys ac aeth Abbie i fyw gyda gofalwyr maeth i'w chadw'n ddiogel. Yn anffodus, roedd Abbie yn cael trafferth gyda'r symudiad hwn ac roedd yn dianc yn rheolaidd o'i chartref maeth ac yn tueddu i ddychwelyd at ei mam gartref. Ar ôl llawer iawn o gefnogaeth ac ymyriadau, aseswyd ei bod yn ddiogel i Abbie fyw gartref gyda'i mam tra bod gorchmynion troseddol yn atal ei thad rhag dod i'w chartref a gweld Abbie.

Pan oedd yn 16 oed, setlodd Abbie mewn perthynas newydd ag Adam. Ar ôl cael gwybod eu bod yn disgwyl eu plentyn cyntaf, cafodd Abbie ac Adam eu cyfeirio at y Gwasanaeth Babi a Fi i'w helpu i bontio i fod yn rhiant a gofalu am eu babi'n ddiogel. Mynychodd Abbie ac Adam raglen magu plant cyn geni o'r enw Camau Bach lle gwnaethant ddysgu am bwysigrwydd y blynyddoedd cynnar, datblygiad ymennydd babanod a sut i ddarllen anghenion emosiynol eu babanod ac ymateb yn briodol. Roedden nhw wrth eu bodd ag amgylchedd y grŵp ac yn dangos gwir gyffro a buddsoddiad mewn dod yn rhieni.

Wrth i Abbie ffurfio cysylltiad cynyddol ddyfnach â'i babi cyn ei eni, dechreuodd ei hymddygiad cymryd risg leihau. Rhoddodd y gorau i gymryd cyffuriau caled, dechreuodd gadw at drefn iach, a gwneud yn siŵr ei bod yn cadw at ei hapwyntiadau bydwreigiaeth. Roedd y newid yn ffordd o fyw ac agweddau Abbie yn golygu bod Gweithwyr Cymdeithasol yn teimlo'n hyderus y gallai Abbie ac Adam ofalu am eu babi gyda phecyn o gefnogaeth ar gael gan Babi a Fi. Felly, pan aned Mila ym mis Hydref 2021, roedd Abbie ac Adam yn gallu mynd â hi adref; llwyddiant enfawr roedden nhw wedi gweithio'n eithriadol o galed amdano.

Arweiniodd y paratoadau a wnaed gan Abbie ac Adam at enedigaeth esmwyth, a nododd y gweithwyr pa mor gysylltiedig, ystyriol a sensitif oedden nhw fel rhieni. Mae Abbie wedi parhau i fwydo Mila ar y fron ers ei geni ac mae Adam wedi gwirioni gyda'i dywysoges fach, gan ddefnyddio ei lais cyfarwydd i ganu iddi a'i chysuro. Mae Mila yn ffynnu, gan ddangos arwyddion calonogol bod ei rhieni wedi ei gwneud yn ganolbwynt i'w byd ac yn gosod y sylfeini ar gyfer canlyniadau corfforol, cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol iach.

Mae profiad Abbie yn werthfawr oherwydd, yn ystadegol, roedd cymaint o bethau ei herbyn. Mae ymchwil wedi canfod bod 1 o bob 4 baban a fabwysiadwyd yng Nghymru yn cael ei eni i fam sydd ei hun wedi tyfu i fyny mewn gofal,[15], sy'n golygu bod Abbie, fel unigolyn ifanc sydd â phrofiad o ofal, yn fwy tebygol o fod mewn perygl o weld ei babi'n cael ei gymryd oddi arni a'i fabwysiadu. Gyda'r cymorth priodol, yn cael ei ddarparu'n amserol, gall pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal fod yn rhieni gwych.

14 Mae enwau yn y stori hon wedi cael eu newid, rhag ofn iddynt gael eu hadnabod

15 Pan fydd pobl ifanc yn dod yn rhieni ac yn gadael gofal y wladwriaeth: beth sy'n digwydd a pham? Dr Louise Roberts, Prifysgol Caerdydd https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/123919/1/Roberts,%20LouiseáWhen%20young%20people%20in%20and%20leaving%20state%20care%20become%20parents.pdf



# Casgliad

Mae trywydd presennol nifer y plant sydd mewn perygl o niwed sylweddol ac y mae angen ymyriadau arnynt yn un na welwyd ei debyg o'r blaen. Mae angen i rywbeth newid.

Mae tystiolaeth bod ymyriadau cynnar, ac ymyriadau strategol penodol, wedi gweithio drwy gefnogi teuluoedd yn ddiogel i aros gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ledled Cymru'n anghyson ac mae Barnardo's yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod teuluoedd yn cael mynediad at gymorth cynnar arbenigol lle bynnag maent yn byw. Ar ben hynny, mae cynlluniau sy'n bodoli'n ehangach yn gofyn am gyllid tymor hir a chynaliadwy er mwyn sicrhau eu bod yn gallu meithrin perthynas â theuluoedd a pharhau i gyflawni yn y tymor hir.

Rydym wedi gweld llwyddiant eithriadol lle mae buddsoddiad yn cael ei wneud i lunio trefniadau Partneriaeth i gefnogi teuluoedd sydd â phroblemau cymhleth.

Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i atal derbyniadau diangen i ofal, gan ddarparu'r gefnogaeth briodol i bob plentyn a theulu.

# Gwybodaeth am Barnardo's Cymru

Mae Barnardo's Cymru wedi bod yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru ers dros 100 mlynedd, ac mae'n un o'r elusennau plant mwyaf. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n cynnal dros 60 o wasanaethau amrywiol ar hyd a lled Cymru, ac yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Bob blwyddyn, rydyn ni'n cefnogi mwy na 10,000 o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn rheolaidd. Ein nod yw sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer mwy o blant drwy gynnig y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wneud yn siŵr bod teuluoedd yn gryfach, bod plentyndod pawb yn fwy diogel, a bod y dyfodol yn fwy cadarnhaol. Rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth rydyn ni wedi'i hennill o'n gwaith uniongyrchol i ymgyrchu i wella bywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd drwy hyrwyddo newid cadarnhaol mewn polisi ac ymarfer. Rydyn ni'n credu y gall y cymorth cywir, cefnogaeth ymroddedig a ffydd olygu bod pob plentyn yn gallu cyflawni ei botensial llawn.



## Sut gallwch chi helpu?

Cysylltwch â ni i ddysgu mwy am wasanaethau ffiniau gofal, ymweld â gwasanaeth lleol a chael gwybod am ein gwaith arall yn eich ardal.

Cefnogwch ein hargymhellion ar gyfer gwasanaethau gofal arloesol yn y Senedd.

## Am ragor o wybodaeth

Cysylltwch ag Amy Bainton ar
Amy.Bainton@barnardos.org.uk
neu 07549 020617

© Barnardo's, 2022 All rights reserved

No part of this report, including images, may be reproduced or stored on an authorised retrieval system, or transmitted in any form or by any means, without prior permission of the publisher.

All images are posed by models. Names have been changed to protect identities.

barnardos.org.uk

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG | T: 0208 550 8822

Barnardo's Registered Charity Nos.216250 and SC037605 23460mw22

Believe in children

Barnardo's Cymru